



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 678 (Cy.75)

2002 No. 678 (W.75)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Gorchymyn Gwerth Gorau
Llywodraeth Leol (Hepgor
Ystyriaethau Anfasnachol)
(Cymru) 2002

The Local Government Best Value
(Exclusion of Non-commercial
Considerations) (Wales) Order
2002

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note does not form part of the Order)

Mae Adran 17(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn cynnwys rhestr o faterion (materion anfasnachol) na chaff awdurdod cyhoeddus arfer y swyddogaethau a restrir yn adran 17(4) o'r Ddeddf honno o'u herwydd, sef swyddogaethau sy'n cynnwys swyddogaethau mewn perthynas â chontractau cyflenwadau neu weithfeydd cyhoeddus arfaethedig.

Section 17(5) of the Local Government Act 1988 ("the 1988 Act") contains a list of matters (non-commercial matters) by reference to which a public authority may not exercise the functions listed in section 17(4) of that Act, which include functions in relation to proposed public supply or works contracts with the authority.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y materion a bennir yn adran 17(5)(a) a (d) o Ddeddf 1988 yn peidio â bod yn faterion anfasnachol at ddibenion yr adran honno. Mae'r materion o dan sylw yn ymwneud â thelerau ac amodau cyflogi etc gweithlu'r contractiwr ac ymddygiad contractwyr neu eu gweithwyr mewn anghydfodau diwydiannol.

This Order provides for the matters specified in section 17(5)(a) and (d) of the 1988 Act to cease to be non-commercial matters for the purposes of that section. The matters concerned relate to the terms and conditions of employment etc. of the contractor's workforce and the conduct of contractors or their workers in industrial disputes.

2002 Rhif 678 (Cy.75)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Gwerth Gorau
Llywodraeth Leol (Hepgor
Ystyriaethau Anfasnachol)
(Cymru) 2002**

Wedi'i wneud 12 Mawrth 2002

Yn dod i rym 31 Mawrth 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 19(1) a (2) a 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(a):

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor Ystyriaethau Anfasnachol) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 31 Mawrth 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r rhai sy'n dod o fewn adran 1(1)(d) neu (e) o Ddeddf 1999 (awdurdodau heddlu a than).

(3) Yn y Gorchymyn hwn Ystyr "Deddf 1988" ("*the 1988 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1988(b).

Materion nad ydynt i fod yn faterion anfasnachol mewn perthynas ag awdurdodau gwerth gorau

2. Bydd y materion a bennir yn adran 17(5)(a) a (d) o Ddeddf 1988 (contractau awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill: hepgor ystyriaethau anfasnachol) yn peidio â bod yn faterion anfasnachol at ddibenion yr adran honno.

(a) 1999 p.27.

(b) 1988 p.9.

2002 No. 678 (W.75)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Local Government Best Value
(Exclusion of Non-commercial
Considerations) (Wales) Order
2002**

Made 12th March 2002

Coming into force 31st March 2002

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred upon it by sections 19(1) and (2) and 29 of the Local Government Act 1999(a):

Name, commencement, application and interpretation

1.-(1) The name of this Order is the Local Government Best Value (Exclusion of Non-commercial Considerations) (Wales) Order 2002 and it shall come into force on 31st of March 2002.

(2) This Order applies to all best value authorities in Wales except those falling within section 1(1)(d) or (e) of the 1999 Act (police and fire authorities).

(3) In this Order "the 1988 Act" ("*Deddf 1988*") means the Local Government Act 1988(b).

Matters not to be non-commercial matters in relation to best value authorities

2. The matters specified in section 17(5)(a) and (d) of the 1988 Act (Local and other public authority contracts: exclusion of non-commercial considerations) shall cease to be non-commercial matters for the purposes of that section.

(a) 1999 c.27.

(b) 1988 c.9.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

12 Mawrth 2002

12th March 2002

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 678 (Cy.75)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Gwerth Gorau
Llywodraeth Leol (Hepgor
Ystyriaethau Anfasnachol)
(Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 678 (W.75)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Local Government Best Value
(Exclusion of Non-commercial
Considerations) (Wales) Order
2002

©© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£1.75


W436/04/02

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090455-9



9 780110 904559